

Rhif: WG35171



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Y Defnydd o Ddisgrifyddion Alcohol Isel

Dyddiad cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Medi 2018

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu sylwadau ynghylch y disgrifyddion a ddefnyddir wrth labelu diodydd â chanran alcohol isel.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw hanner nos ar 19 Medi 2018.

Mae modd ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

Fel arall, mae ffurflen ymateb yn Atodiad A y gellir ei dychwelyd drwy ebost i

Tobaccopolicy@gov.wales

Neu'r drwy'r post i:

Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)
Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd
4ydd Llawr, y Dwyrain
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae modd gweld y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)
Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd
4ydd Llawr, y Dwyrain
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Tobaccopolicy@gov.wales

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgylmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Ymgynghori ar y defnydd o ddisgrifyddion alcohol isel

Cynnwys

Cyflwyniad – Tudalen 5

Ble rydym ni arni – Tudalen 5

Beth ydym ni'n ei ystyried – Tudalen 6

Camau nesaf – Tudalen 12

Crynodeb o'r cwestiynau – Tudalen 12

Ffurflen ymateb – Atodiad A

Cyflwyniad

I lawer o bobl yng Nghymru, mae alcohol yn rhan o'u bywydau cymdeithasol. Fel gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau mewn bywyd, mae elfen o risg yn gysylltiedig â hyn. Yn 2016, cyhoeddwyd canllawiau gan Brif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig. Fe'u dyluniwyd i alluogi pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch faint o alcohol y maen nhw'n ei yfed. Y diben yw helpu pobl i ddeall y peryglon posib i'w iechyd sydd ynghlwm ag alcohol, ac i wneud penderfyniadau ynghylch faint o alcohol y maen nhw'n ei yfed yng ngoleuni'r peryglon hynny.

Mae'r canllawiau yn awgrymu cadw'r peryglon iechyd sydd ynghlwm ag alcohol i lefel isel; mae'n fwy diogel peidio ag yfed mwy na 14 uned yr wythnos yn rheolaidd. Gall diodydd â lefel alcohol isel helpu pobl i gyflawni'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar sut orau i barhau i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch cynhyrchion alcohol isel, fel y gall oedolion barhau i wneud dewisiadau gwybodus wrth brynu diodydd. Mae Llywodraethau eraill y DU yn gweithredu mewn modd tebyg.

Diben yr ymgynghoriad yw casglu barn ynghylch a ddylem barhau â'r broses gyfredol neu weld a allai dull gwirfoddol, gyda chanllawiau ategol, weithio. Rydym hefyd yn adolygu'r derminoleg a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddisgrifio cynhyrchion alcohol isel.

Ble rydym ni arni?

Mae poblogrwydd a gwerthiant diodydd alcohol isel a dialcohol yn y DU yn cynyddu a gwelwyd cynnydd o 20.5% mewn gwerthiant dros y 12 mis diwethaf¹. Mae'r farchnad a'r ystod cynhyrchion yn amrywio; mae cwrw, lagers, stowtiau, gwinoedd a hyd yn oed rai gwirodydd cymysg ar gael, gyda rhai manwerthwyr yn neilltuo rhesi cyfain mewn archfarchnadoedd ar gyfer cynhyrchion o'r fath². Mae sefydliadau megis Club Soda³ (fforwm yfed ystyriol) yn helpu i addysgu'r cyhoedd a manwerthwyr i hyrwyddo dewisiadau amgen dialcohol.

Gall cynhyrchion alcohol isel fod â llai o galoriau na diodydd alcohol cryfder arferol⁴ a gallent helpu i leihau faint o galoriau y mae rhywun yn ei fwyta ac yfed yn rhan o ddeiet iach. Gall newid i diodydd alcohol isel neu ddialcohol gael effaith gadarnhaol wrth helpu i gyflawni buddiannau iechyd cyhoeddus drwy leihau faint o alcohol y mae pobl y DU yn ei yfed a helpu i gefnogi pobl i ddechrau yfed llai. Yn 2016, cyhoeddodd Prif

¹ Gwefan 'The Grocer': *Moderation on trend as sales of low and no-alcohol beer soars*. 24 Awst 2017.

<https://www.thegrocer.co.uk/stores/consumer-trends/moderation-on-trend-as-sales-of-low-and-no-alcohol-beer-soars/556762.article>

² Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: *Disgrifyddion Alcohol Isel*. Ymgynghoriad ar y defnydd o ddisgrifyddion alcohol isel

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/690516/low_alcohol_descriptors_consultation_document.pdf

³ <https://joinclubsoda.co.uk/>

⁴ Drinkaware: *Y gwahaniaeth rhwng cwrw alcoholaidd a dialcohol*. Gwybodaeth yn deillio o 14/06/18. <https://www.drinkaware.co.uk/alcohol-facts/alcoholic-drinks-units/alcoholic-and-non-alcoholic-beers/>

Swyddogion Meddygol y DU eu Canllawiau Yfed Risg Isel⁵ sy'n awgrymu yfed dim mwy na 14 uned yr wythnos er mwyn cadw peryglon iechyd yn isel.

Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i Rheoliadau Labelu Bwyd 1996⁶ yn cynnwys amodau ar gyfer defnyddio termau sy'n disgrifio cynhyrchion alcohol isel neu ddialcohol a sicrhau bod labeli cynhyrchion yn gyson ac nid yn gamarweiniol o ran eu cynnwys alcohol isel. Nid yw'n orfodol defnyddio'r termau, ond os cânt eu defnyddio, mae'n rhaid i gynhyrchion fodloni'r gofynion a restrir yn y rheoliadau. Bydd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014⁷ yn disodli rhannau perthnasol y Rheoliadau Labelu Bwyd ar 13 Rhagfyr 2018.

Beth ydym ni'n ei ystyried?

Mae defnyddio disgrifyddion alcohol isel yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Mae gan bob gwlad yn y DU gymal yn ei Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd a fydd yn golygu y bydd y ddarpariaeth bresennol yn y Rheoliadau Gwybodaeth o ran disgrifyddion alcohol isel yn dod i ben yn awtomatig ar 13 Rhagfyr 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed barn pobl am bedwar maes allweddol, sef:

- A ddylai Llywodraeth Cymru barhau gyda'r gofynion gwybodaeth cyfredol ar gyfer diodydd alcohol isel neu ddialcohol, neu gael canllawiau i ddisodli'r gofynion presennol?
- Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ddiodydd alcohol isel gael cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2% neu lai. A yw hyn yn ddigonol, neu a ddylai fod yn llai?
- Ar hyn o bryd mae tri disgrifydd a allai fod yn rhoi gwybodaeth gamarweiniol, sef *alcohol free (heb alcohol)*, *non alcoholic (dialcohol)* a *dealcoholised (wedi ei ddadalcoholeiddio)*. A yw'r rhain yn gwneud synnwyr neu a ddylid eu newid?
- A oes angen disgrifydd ychwanegol ar gyfer diodydd alcoholaidd sydd â lefelau uwch na'r lefelau alcohol isel presennol (cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2%)?

Mae manylion ychwanegol am y meysydd allweddol hyn isod, ac mae crynodeb o'r holl gwestiynau ar dudalen 12.

Deddfwriaeth neu ganllawiau

Yn unol â'r trefniadau presennol, os yw manwerthwr yn dymuno labelu diod alcohol isel, mae angen iddo fodloni'r meini prawf a nodir mewn rheoliadau. Does dim rheidrwydd arno i labelu'r diodydd hyn, ond mae'n rhaid iddo ddilyn y Rheoliadau Labelu Bwyd os yw'n dymuno defnyddio'r disgrifyddion cyfredol.

⁵ Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig: Canllawiau Yfed Risg Isel. Awst 2016.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/545937/UK_CMO_s_report.pdf

⁶ Legislation.gov.uk: Rheoliadau Labelu Bwyd 1996. Gorffennaf 1996.
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1996/1499/contents/made>

⁷ Legislation.gov.uk: Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014. Awst 2014.
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2303/introduction/made>

Daw'r disgrifyddion hyn i ben ar 13 Rhagfyr 2018 ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y dylid rheoli'r mater hwn pan ddigwydd hyn. Er bod disgrifyddion alcohol isel yn fater sydd wedi ei ddatganoli, mae hefyd yn fater sy'n effeithio ar y DU yn ei chyfanrwydd. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Fwyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, sydd wedi cymryd yr awenau ar y mater hwn, yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon i rannu'r wybodaeth o'r ymgynghoriad hwn ac ystyried a ellir dod i gytundeb ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ddau ddewis canlynol pan ddaw'r rheoliadau cyfredol i ben.

Dewis 1 – Parhau i osod y meini prawf ar gyfer disgrifyddion alcohol isel mewn rheoliadau ac adolygu'r disgrifyddion cyfredol i benderfynu a ydynt yn dal yn addas i'w diben, neu a oes angen eu diwygio.

Dewis 2 – Adolygu'r disgrifyddion cyfredol ar gyfer diodydd alcohol isel a dialcohol a gweithio gyda'r diwydiant i gynhyrchu canllawiau ar labelu diodydd alcohol isel a dialcohol.

Cafodd disgrifyddion alcohol isel eu disgrifio mewn is-ddeddfwriaeth ers 1996. Felly mae'n bosib y bydd y cyhoedd, yn absenoldeb deddfwriaeth ar gyfer y disgrifyddion, yn bryderus y bydd y diwydiant alcohol yn creu ei ddisgrifyddion ei hun ac yn gosod y rhain ar ganran y tu hwnt i gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2%. Mae hwn yn bryder dilys.

Fodd bynnag, nid yw diffyg deddfwriaeth yn golygu diffyg rheoleiddio. Un dewis yw gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i gynhyrchu canllawiau a chyhoeddi disgrifyddion y dylid eu defnyddio i ddisgrifio cynhyrchion alcohol isel y byddem yn disgwyl i'r diwydiant alcohol gadw atynt a'u dilyn. Gallai'r dewis hwn fod mor effeithiol â'r rheoliadau cyfredol a byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau polisi posib yn y dyfodol.

I liniaru'r risg ymhellach, byddai disgwyl o hyd i awdurdodau gorfodi perthnasol gyfeirio at y canllawiau wrth asesu a oedd unrhyw ddisgrifiad yn gamarweiniol. Byddai disgwyl i'r llysoedd hefyd, lle bo'n berthnasol, ystyried y canllawiau yn yr achosion ger eu bron.

Bydd yn dal yn drosedd i labeli fod yn gamarweiniol o dan Adran 15(1) o'r Ddeddf Diogelwch Bwyd⁸. Yn ôl Rheoliad (CE) Rhif.178/2002, a orfodir yng Nghymru gan y Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007⁹, mae angen hefyd i honiadau ynghylch maeth ac iechyd beidio â bod yn anwir, yn amwys neu'n gamarweiniol.

Adolygir y canllawiau cyfredol ac asesir eu heffaith ar ôl cyfnod o dair blynedd. Os nad yw'r canllawiau yn cyflawni eu diben arfaethedig, byddid yn ystyried ailgyflwyno deddfwriaeth. Byddid yn cadw'r pwerau cyfredol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990⁸ i wneud rheoliadau.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn pobl ynghylch ai dull rheoleiddiol neu ddull gwirfoddol gyda chanllawiau ategol fyddai'r ffordd orau o fynd ati o ran disgrifyddion alcohol isel.

⁸ Legislation.gov.uk: Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Mehefin 1990.

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/16/introduction>

⁹ Legislation.gov.uk: Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007. Hydref 2007.

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2611/introduction/made>

Cwestiynau

1. Pa ddewis yr ydych chi'n cytuno ag ef – parhau i ddeddfu ar ddisgrifyddion alcohol isel neu weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliad eraill i lunio canllawiau?

Diodydd alcohol isel

Ers 1996 bu dealltwriaeth y gellid disgrifio cynhyrchion alcohol isel fel unrhyw beth sydd â chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0% i 1.2%. Mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion ar y silffoedd sy'n defnyddio'r disgrifydd alcohol isel yn tueddu i fod yn yr ystod cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.5% i 1.2%².

Gyda chynnydd yn y galw am ddiodydd alcohol isel, a mwy o ddewis¹, rydym yn credu y byddai manteision rhoi cysondeb i'r cyhoedd a'r diwydiant drwy gadw'r disgrifyddion cyfredol ar ac yn is na chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2%. Byddai hyn yn rhoi elfen o sicrwydd o ran beth yw cynhyrchion alcohol isel, ac yn osgoi dryswch pan ddaw'r ddeddfwriaeth i ben.

Ni ellir ond defnyddio'r disgrifiad "alcohol isel" os yw'r ddiodydd alcoholaidd yn bodloni'r amodau canlynol:

- a) bod gan y ddiodydd gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o ddim mwy nag 1.2 y cant, a
- b) bod y ddiodydd wedi ei nodi neu ei labelu gyda'i gryfder alcoholaidd uchaf, fel yr amlinellir yn y Rheoliadau Labelu Bwyd, gyda'r geiriau "*not more than*" yn union o'i flaen.

Cwestiynau

2. A ydych yn cytuno y dylai'r terfyn alcohol uchaf barhau ar gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2% er mwyn defnyddio'r disgrifydd "alcohol isel", neu a ddylid lleihau'r terfyn hwn?

Dialcohol, heb alcohol, ac wedi ei ddadalcoholeiddio

O dan y rheoliadau cyfredol, mae tri disgrifydd a allai fod yn ddryslyd i'r cyhoedd, sef dialcohol, heb alcohol, ac wedi ei ddadalcoholeiddio (*non-alcoholic, alcohol-free, a dealcoholised*). Yn ymarferol, gallai'r rhain olygu'r un peth, sef cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys alcohol. Mewn gwirionedd, mae ganddynt dri diffiniad gwahanol. Y gofynion ar gyfer y disgrifyddion hyn yw:

- Dialcohol (*Non-alcoholic*) – ni ellir ei ddefnyddio gydag enw sy'n gysylltiedig â diodydd alcoholaidd heblaw am win cymun neu sagrafennol.
- Heb alcohol (*Alcohol free*) – mae'n rhaid i'r cynnyrch fod â chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.05% neu lai;
- Wedi ei ddadalcoholeiddio (*De-alcoholised*) – mae'n rhaid i'r cynnyrch fod â chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.5% neu lai.

Isod amlinellir manylion ychwanegol am y disgrifyddion hyn.

Dialcohol (*Non-alcoholic*)

Mae nifer o ddiodydd dialcohol neu alcohol isel sydd wedi eu gwneud o rawnwin ar y farchnad. Efallai fod yr amodau cyfredol ar gyfer defnyddio'r gair "dialcohol" yn rhy gyfyng ac nad ydynt o bosib yn adlewyrchu'r arloesi yn y farchnad o ran cynhyrchu cynhyrchion dialcohol sydd wedi eu gwneud â grawnwin, ynghyd ag ystod o ddiodydd eraill megis cwrw heb alcohol. Mae gorgyffwrdd a dryswch posib gyda'r disgrifydd hwn a'r term "heb alcohol" a ddisgrifir yn yr adran nesaf.

Ar hyn o bryd dim ond os bodlonir yr amodau canlynol y gellir defnyddio'r disgrifydd "dialcohol"

- a) ni ellir ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag enw a gysylltir yn gyffredinol â diod alcoholaidd, ac eithrio ar gyfer yr enw cyfansawdd "gwin dialcohol" pan ddefnyddir yr enw cyfansawdd hwnnw yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Labelu Bwyd.

Heb alcohol (*Alcohol-free*)

Gall fod sawl rheswm pam mae pobl yn dewis osgoi alcohol, neu efallai fod rheidrwydd arnynt i wneud hynny, a gallai gynyddu'r lefel lle mae modd diffinio cynhyrchion yn un heb alcohol beri anhawster i'r bobl hynny. Er enghraifft, mae rhai crefyddau yn gwahardd yfed alcohol, mae angen i ferched beichiog wybod a yw'r cynhyrchion y maen nhw'n eu defnyddio yn ddiogel i'w hyfed a ddim yn niweidiol, a gallai alcoholigion sydd ar lwybr adferiad fod eisiau osgoi alcohol lle gallai arwain at ddibyniaeth ar yfed.

O dan adran 191(1)(a) o Ddeddf Trwyddedu 2003¹⁰, nid yw'r diffiniad o ddiod feddwol yn cynnwys diod sydd â chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy na 0.5% ar adeg ei werthu neu ei gyflenwi. Gellid dweud fod hyn yn anghyson â rheoliadau neu gyngor o gofio bod y disgrifydd ar gyfer heb alcohol wedi ei osod ar gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint 0.05%.

Un dewis fyddai ailddiffinio heb alcohol i fod yn is na chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.5% er mwyn annog y diwydiant alcohol i gynhyrchu mwy o gynhyrchion alcohol isel. Fodd bynnag, mae'r diwydiant alcohol isel yn tyfu ac mae gwerthiant cynhyrchion gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.05% yn cynyddu yn y DU. Mae'r diwydiant wedi dangos y gall greu cynhyrchion o ansawdd, sy'n bodloni'r diffiniad cyfredol o heb alcohol, sef 0.05%, heb unrhyw newid i'r diffiniad cyfredol.

Mae'n bwysig fod prynwyr yn ymwybodol o gynnwys y cynhyrchion y maen nhw'n ei yfed a bod disgrifyddion yn bodloni disgwyladau'r cyhoedd. Rydym yn ymwybodol y gall newid y diffiniad o heb alcohol neu ddialcohol i lefel megis cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 0.5% gael effaith negyddol ar yfwyr.

Ar hyn o bryd ni ellir ond defnyddio'r disgrifydd "heb alcohol" os yw'n bodloni'r amodau canlynol

¹⁰ Legislation.gov.uk: Deddf Trwyddedu 2003. Gorffennaf 2003.
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/17/introduction>

- (a) bod gan y ddiod gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o ddim mwy na 0.05%, a;
- (b) bod y ddiod wedi ei nodi neu ei labelu mewn ffurf sy'n cynnwys y geiriau "*not more than*" a'i gryfder alcoholaidd mwyaf wedi ei ddynodi, neu mewn achos priodol, y dynodir nad yw'n cynnwys unrhyw alcohol.

Y Disgrifydd 'Wedi ei Ddadalcoholeiddio' (*Dealcoholised*)

Mae 'Wedi ei Ddadalcoholeiddio' yn derm a ddefnyddir pan gynhyrchir alcohol drwy'r broses epleu ac yna ei waredu o'r ddiod derfynol fel nad yw'r cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint yn ddim mwy na 0.5%. Mae'r diwydiant yn tueddu i ddefnyddio'r disgrifydd fwy ar gyfer gwinoedd nac ar gyfer cwrw a lagers.

O'r gwaith ymchwil a ddaeth i ddwylo'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sylwadau gan rai o gynrychiolwyr y diwydiant, nid yw "wedi ei ddadalcoholeiddio" yn tueddu i atseinio'n dda iawn gyda'r cyhoedd fel disgrifydd penodol.

Gyda chynnydd yn y diwydiant alcohol isel ac apêl y cynhyrchion i brynwyr, rydym yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylid parhau i ddefnyddio'r disgrifydd hwn, ac os na, beth arall ellid ei ddefnyddio.

Ar hyn o bryd, ni ellir ond defnyddio'r disgrifydd "wedi ei ddadalcoholeiddio" ond os yw'n bodloni'r amodau canlynol

Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiod, oni bai-

- (a) fod gan y ddiod, sef diod alcoholaidd y gwaredwyd yr alcohol ohono, gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o ddim mwy na 0.5%, a
- (b) bod y ddiod wedi ei nodi neu ei labelu mewn ffurf sy'n cynnwys y geiriau "*not more than*" a'i gryfder alcoholaidd mwyaf wedi ei ddynodi, neu mewn achos priodol, y dynodir nad yw'n cynnwys unrhyw alcohol.

Cwestiynau

3. A ddylem ni barhau i ddefnyddio'r disgrifyddion dialcohol, heb alcohol ac wedi ei ddadalcoholeiddio fel y'u diffinnir nhw ar hyn o bryd, neu a ddylid eu diwygio neu roi'r gorau i'w defnyddio?
4. A ydych chi'n credu y dylid caniatáu defnyddio'r disgrifydd dialcohol am reswm arall ac nid yn unig mewn cysylltiad â gwinoedd cymun neu sagrafennol? Rhwch reswm pam.
5. A ddylai'r disgrifydd heb alcohol, os y'i cedwir, barhau i fod yn 0.05%

Disgrifyddion gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2%

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr wedi ymgynghori gyda rhanddeiliaid i drafod y posibilrwydd o gyflwyno disgrifyddion newydd ar gyfer diodydd sydd â chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2%, gyda'r diben o annog y

cyhoedd i ddechrau yfed diodydd sydd â chryfder llai na'r hyn sy'n gyffredin yn y diwydiant.

Roedd y pwyslais ar gynigion ar gyfer cwrw, lagers, seidr a gwinoedd. Cynigiwyd disgrifyddion megis “*reduced*” neu “*lower alcohol*” ond doedd dim cytundeb ynghylch pa % cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint y dylai'r disgrifyddion hyn fod yn berthnasol iddynt.

Yn ychwanegol at y digwyddiadau hyn, comisiynodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol waith ymchwil annibynnol am ddealltwriaeth y cyhoedd o'r disgrifyddion cyfredol a'r rhai newydd posib, a'u hymateb i'r ddeubeth hyn. Yr astudiaethau ymchwil yw:

- Astudiaeth 1: *Impact of low alcohol verbal descriptors on perceived strength: an experimental study*¹¹
- Astudiaeth 2: *Impact on product appeal of labelling wine and beer with (a) lower alcohol verbal descriptors and (b) % alcohol by volume: an experimental study-under review: Psychology of Addictive Behaviours* (Tachwedd 2017).
- Astudiaeth 3: *Impact of low alcohol labels on consumption: a bar lab experiment - revised manuscript under review: Health Psychology* (Tachwedd 2017)
- Astudiaeth 4: *Low alcohol and equivalent labels for changing selection and consumption of alcohol, food and tobacco products: a systematic review*¹².
- Astudiaeth 5: *Marketing messages accompanying online selling of lower and regular strength wine and beer products in the UK: A content analysis*¹³.

Ni chyhoeddwyd yr holl astudiaethau hyn eto. Ond deallwn fod yr holl dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn awgrymu bod apêl diodydd alcoholaidd yn lleihau gyda'u cryfder tybiannol (Astudiaethau 1 a 2).

Nid oedd unrhyw ddisgrifyddion a brofwyd yn llwyddiannus iawn o ran eu heffaith ar apêl. Roedd peth tystiolaeth y gallai labeli alcohol llai cryf gynyddu cyfanswm yr alcohol a yfid mewn un sesiwn yfed o'i gymharu â dewisiadau eraill cryfder cyffredin (Astudiaeth 3).

Roedd peth tystiolaeth hefyd y gallai marchnata cynhyrchion llai cryf annog pobl i gynyddu nifer y sesiynau yfed, e.e. yfed cynhyrchion llai cryf amser cinio lle gynt efallai na fydden nhw wedi yfed alcohol (Astudiaeth 5). Darganfu'r astudiaeth olaf hefyd fod rhai prynwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol bod cynhyrchion alcohol is wedi ei labelu'n glir.

I grynhoi, er mai tystiolaeth gyfyngedig a gasglwyd, mae'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn ein dealltwriaeth, o'i gymharu â'r nesaf peth i ddim o dystiolaeth berthnasol cyn comisiynu'r astudiaethau hyn, fel yr amlygwyd yn yr adolygiad systematig (Astudiaeth 4).

Er nad yw'r ymchwil a wnaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd yma yn rhoi cefnogaeth bendant i ddisgrifyddion newydd, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gynyddu'r dewis sydd ar gael i bobl, annog yfed llai o alcohol a sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn syml. O ganlyniad, rydym yn croesawu sylwadau pellach ynghylch sut y gallai disgrifydd ychwanegol o gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2% gyflawni hyn.

¹¹ <http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/bjhp.12273/full>

¹² <http://bmcpublihealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12889-016-3956-2>

¹³ <https://bmcpublihealth.biomedcentral.com/track/pdf/10.1186/s12889-018-5040-6?site=bmcpublihealth.biomedcentral.com>

Cwestiynau

6. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gyflwyno disgrifyddion newydd ar gyfer diodydd alcoholaidd gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2%

Sylwadau Pellach

Mae croeso ichi wneud unrhyw sylwadau pellach ynghylch yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiynau

7. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu?

Camau nesaf

Rhoddir ystyriaeth ofalus i bob sylw a dderbynnir cyn hanner nos ar y dyddiad cau, sef hanner nos 19 Medi 2018. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

Crynodeb o'r cwestiynau

1. Pa ddewis yr ydych chi'n cytuno ag ef – parhau i ddeddfu ar ddisgrifyddion alcohol isel neu weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliad eraill i lunio canllawiau?
2. A ydych chi'n cytuno y dylai'r terfyn alcohol uchaf barhau ar gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2% er mwyn defnyddio'r disgrifydd "alcohol isel", neu a ddylid lleihau'r terfyn hwn?
3. A ddylem ni barhau i ddefnyddio'r disgrifyddion dialcohol, heb alcohol ac wedi ei ddadalcoholeiddio fel y'u diffinnir nhw ar hyn o bryd, neu a ddylid eu diwygio neu roi'r gorau i'w defnyddio?
4. A ydych chi'n credu y dylid caniatáu defnyddio'r disgrifydd dialcohol am reswm arall ac nid yn unig mewn cysylltiad â gwinoedd cymun neu sagrafenol? Rhowch reswm pam
5. A ddylai'r disgrifydd heb alcohol, os y'i cedwir, barhau i fod yn 0.05%
6. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gyflwyno disgrifyddion newydd ar gyfer diodydd alcoholaidd gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2%
7. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu?

Ymgynghori ar y defnydd o ddisgrifyddion alcohol isel

Ffurflen ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Ymatebion i'w dychwelyd erbyn **19 Medi 2018** i:

Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

neu cwblhewch y ffurflen yn electronig a'i hanfon i: tobaccopolicy@gov.wales

1. **Cwestiwn 1** – Pa ddewis yr ydych chi'n cytuno ag ef – parhau i ddeddfu ar ddisgrifyddion alcohol isel neu weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliad eraill i lunio canllawiau?

Parhau i ddeddfu

Gweithio gyda'r
diwydiant a
rhanddeiliad eraill i
lunio canllawiau

Ansicr

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno y dylai'r terfyn alcohol uchaf barhau ar gryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o 1.2% er mwyn defnyddio'r disgrifydd "alcohol isel", neu a ddylid lleihau'r terfyn hwn?

Cytuno Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 3 - A ddylem ni barhau i ddefnyddio'r disgrifyddion dialcohol, heb alcohol ac wedi ei ddadalcoholeiddio fel y'u diffinnir nhw ar hyn o bryd, neu a ddylid eu diwygio neu roi'r gorau i'w defnyddio?

Dialcohol

Cadw Ailddrafftio Amherthnasol mwyach Ansicr

Heb alcohol

Cadw Ailddrafftio Amherthnasol mwyach Ansicr

Wedi ei ddadalcoholeiddio

Cadw Ailddrafftio Amherthnasol mwyach Ansicr

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n credu y dylid caniatáu defnyddio'r disgrifydd dialcohol am reswm arall ac nid yn unig mewn cysylltiad â gwinoedd cymun neu sagrafenol? Rhowch reswm pam.

Ydw

Nac Ydw

Ddim yn gwybod

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 5 - A ddylai'r disgrifydd heb alcohol, os y'i cedwir, barhau i fod yn 0.05%?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 6 – A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gyflwyno disgrifyddion newydd ar gyfer diodydd alcoholaidd gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint o fwy nag 1.2%?

Oes

Nac oes

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 7 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu?

